# Canllaw recriwtio cynhwysol

28/05/2024
28/05/2024
See all updates
Deg awgrym ar gyfer dylunio a gweithredu arferion recriwtio i ddenu doniau newydd ac amrywiol i'ch sefydliad.

| Atodiad | Maint |
|---|---|
| New to Nature inclusive recruitment guide | 8.58 MB |
| Newydd I Natur canllaw recriwtio cynhwysol | 8.1 MB |

Yn 2022 daethom ynghyd mewn partneriaeth â Groundwork UK i gyflawni Newydd i Natur, rhaglen a ddyluniwyd i helpu pobl ifanc i ddod o hyd i leoliadau gwaith natur cyflogedig ac arallgyfeirio'r sector.

Gan alw ar eu profiad o weithio gyda mwy nag 80 o sefydliadau i recriwtio 98 o hyfforddeion, mae Groundwork UK wedi creu canllaw 10 cam i annog sefydliadau i roi cynnig ar ddulliau newydd o gyrraedd grwpiau sydd heb eu gwasanaethau'n ddigonol. Ac nid ar gyfer y sector natur yn unig y mae hyn – gall unrhyw un sy'n gweithio ym myd treftadaeth neu'r tu hwnt sydd am wneud eu prosesau recriwtio'n fwy cynhwysol ei ddefnyddio.

## Sut i ddenu doniau newydd ac amrywiol

O ganlyniad i fabwysiadu'r camau hyn recriwtiodd Newydd i Natur 86% o hyfforddeion o un o leiaf o grwpiau blaenoriaeth y rhaglen:

1. gosod y sylfeini
2. deall eich man cychwyn
3. ystyried swydd lefel mynediad
4. annog darpar ymgeiswyr gyda'ch pecyn swydd
5. defnyddio iaith uniongyrchol a delweddau cynrychioliadol
6. mabwysiadu proses ymgeisio syml
7. datblygu strategaeth hyrwyddo ac allgymorth
8. sicrhau bod eich proses llunio'r rhestr fer yn deg ac yn isafu tuedd
9. cefnogi'r holl ymgeiswyr i ddisgleirio mewn cyfweliad
10. cefnogi'r ymgeisydd llwyddiannus i lwyddo

## Mwy o wybodaeth

Lawrlwythwch y PDF sydd ynghlwm wrth y dudalen hon i archwilio'r canllaw. I gyd-fynd â phob un o'r 10 cam ceir cyngor ymarferol a gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen Newydd i Natur, yn ogystal â phwyntiau allweddol. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys adborth gan hyfforddeion sydd wedi cael

profiad o'r arferion recriwtio hyn o lygad y ffynnon, ac mae dolenni i ddeunydd darllen pellach.

Mae'r Gronfa Treftadaeth  yn ymroddedig i gefnogi gwell cynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth. Trwy ein hariannu, byddwn yn cefnogi sefydliadau i sicrhau bod gan bawb gyfleoedd i ddysgu, datblygu sgiliau newydd a fforio treftadaeth, beth bynnag fo'u cefndir neu amgylchiadau personol. Archwiliwch ein hegwyddorion buddsoddi Treftadaeth 2033 i weld yr hyn y gallwn ei wneud gyda'n gilydd a'r hyn yr ydym am ei gyflawni.

## ddordeb hefyd mewn ...



Groundwork Cheshire, Prentisiaid Ifanc Swydd Gaerhirfryn a Glannau Mersi: (o'r chwith i'r dde) Samuel Gibson, Billy Hunt, Sam Phillips a Mia Francis. Credyd: Mark Waugh

### bl ifanc mewn treftadaeth naturiol



An exhibition on the School for the Blind at the Museum of Liverpool.

### employers and heritage audiences







## Egwyddorion buddsoddi